NEGES GAN AELOD GWEITHREDOL ADDYSG A PRIF SWYDDOG ADDYSG

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Pwrpas llyfryn Gwybodaeth i Rieni/Gwarcheidwaid Blaenau Gwent yw eich helpu i ddeall system addysg Blaenau Gwent a gwneud y penderfyniad iawn i'ch plentyn.

Os oes angen cyngor arnoch ynglyn â'r materion a drafodir yn y llyfryn, cysylltwch â staff yr Adran ar 01495 355419 (*Gweler trosodd ar gyfer ardaloedd penedol)

Cynghorwr S Bard
Aelod Gweithredol-Addysg

Mr Robert Barbour
Prif Swyddog Addysg

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol a chanllawiau polisi am ddarpariaeth addysg Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer y flwyddyn ysgol 2008/2009

Mae gwybodaeth fwy manwl ar gael wrth y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes:

Adran Dysgu Gydol Oes Blaenau Gwent,
Depo Canolog
Stad Ddiwydiannol Barleyfield,
Brynmawr NP23 4YF
Ffôn: 01495 311556

E-bost: education.department@blaenau-gwent.gov.uk
www.blaenau-gwent.gov.uk

Tymhorau a Gwyliau'r Ysgol

Os byddwch angen cyngor, gwbodaeth neu gyfarwyddyd ynglfln ag unrhyw rai o r gwasanaethau canlynol a ddarperir gan yr Adran Dysgu Gydol Oes, fe'u cewch drwy ffonio r rhifau ff n canlynol.

• Prydau Ysgol am Ddim	01495 311556
• Cynhaliaeth Myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch	01495 311556
• Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	01495 311556
• Derbyniadau i Ysgolion Meithrin/Cynradd ac Uwchradd	01495 311566
• Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig	01495 355329
• Gwasanaeth leuenctid	01495 357712

Medrwch hefyd ffonio i wneud apwyntiad gydag aelod o staff os dymunwch drafod mater yn bersonol.

Gellir cysylltu r Adran hefyd drwy e-bost - education.department@blaenau-gwent.gov.uk

Dyddiadau Arfaethedig ar gyfer 2008/2009

	Tymor yn Cychwyn	Hanner Tymor	Tymor yn Gorffen	Dyddiau
Hydref 2009	Mercher 02/09/09	Llun-Gwener 26/10/09 – 30/10/09	Mawrth 22/12/09	75
Gwanwyn 2010	Llun 04/01/10	Llun - Gwener 15/02/09 – 19/02/10	Gwener 26/03/10	55
Haf 2010	Llun 12/04/10	Llun - Gwener 30/05/10 - 14/06/10	Llun 19/07/10	65
Total				195*

Yn cynnwys 5 diwrnod ar gyfer hyfforddiant mewn-swydd athrawon

Gŵyl Fai – Dydd Llun 5 Mai 2010

Caiff unrhyw ddyddiau cau ar gyfer dibenion etholiadol eu cydbwyso yn ystod y flwyddyn academaidd

Medrir tynnu'r dudalen hon yn rhydd – cyfleus i'w chadw i'ch atgoffa am amserau tymor

Cynnwys

Tudalen

Adran Un 1 - 2

Cyhoeddiadau a newidiadau
Esbonio'r termau a'r symbolau a ddefnyddir yn y llyfryn hwn
Derbyn rhif

Adran Dau 3 - 5

Addysg feithrin a darpariaeth cyn-ysgol arall
Gwasanaeth Gwybodaeth Plant
Rhaglen Cychwyn Cadarn Blaenau Gwent
Dechrau Deg
Genesis Cymru – Dechreuad Newydd i Rieni a Phlant
Chwarae
Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd
Cerbyd Cymunedol Dragons' Den
Prosiect Magu Plant ym Mlaenau Gwent
Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS)
Siop Un Stop ar gyfer Cwynion a Sylwadau Plant

Adran Tri 6 - 9

Trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol y Fwrdeisdref Sirol ac Ysgolion Gwirfoddol dan Reolaeth
Trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng Ysgolion
Mynediad i ysgolion ac unedau Arbennig
Mynediad i Ysgolion Gwirfoddol dan Gymorth
Dewis y rhieni o ysgol
Y weithdrefn apelio
Plant sydd wedi'u heithrio o'r ysgol yn barhaol
Trefniadau ar gyfer darparu addysg mewn ysgolion y tu allan i Flaenau Gwent

Adran Pedwar 10 - 11

Dyddiad gadael yr ysgol
Addysg ôl-16
Addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
Addysg cyfrwng Cymraeg
Addysg uwchradd ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Sofrydd/Llanhiledd

Adran Pump 12 - 13

Cludiant ysgol a choleg (ac eithrio ar gyfer addysg arbennig)
Llaeth a phrydau bwyd
Grantiau Dillad

Adran Chwech 14 – 16

Cefnogaeth ar gyfer Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
Disgyblion Bregus
Prosiect Proteus: Addysg tu allan i'r Ysgol
Gwasanaeth Lles Addysg
Anawsterau Dysgu Penodol
Addysg Cartref Dewisol
Gwasanaeth Seicoleg
Cwynion yng nghyswllt Anghenion Addysgol Arbennig
Gwyliau Teuluol yn ystod Amser Tymor
Polisi Codi Tâl a Dileu Dyledion

Adran Saith 17

Yr Arolygiaeth
Y Cwricwlwm Cenedlaethol
Asesiadau sylfaenol
Canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant
Cwynion

Adran Wyth 18

Llywodraethwyr Ysgol
Arholiadau Cyhoeddus
Targedau ar gyfer Gwella
Salwch Difrifol
Esboniad o Symbolau

Adran Naw 19 - 22

Ysgolion Abertyleri
Ysgolion Brynmawr a Nantyglo
Ysgolion Glyn Ebwy
Ysgolion Tredegar
Ysgolion Arbennig

Cyhoeddiadau a Newidiadau

Mae'r llyfryn hwn yn ymwneud â'r trefniadau derbyn ar gyfer blwyddyn ysgol 2009/2010 ac mae'n gywir adeg argraffu. Mae'r Cyngor Bwrdeisdref Sirol yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'w bolisïau derbyn ac unrhyw bolisïau eraill a gyhoeddir lle bo angen, er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â deddfwriaeth, neu â gofynion y cymorth ariannol a roddir i'r Cyngor.

Mae gwybodaeth am ysgolion unigol ynghyd â chopi o brosbectws yr ysgol, ar gael oddi wrth Benaethiaid yr ysgolion a restrir ar dudalennau 19 – 22.

Esbonio Termau

Awdurdod Addysg Lleol (AALl)

Y Corff Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am drefnu a chynnal y gwasanaeth addysg yn ei ardal. Ym Mlaenau Gwent mae'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei gyflawni gan y Cyngor Bwrdeisdref Sirol.

Ysgol Gydaddysgol

Ysgol sy'n darparu ar gyfer y ddau ryw (mae'r holl ysgolion ym Mlaenau Gwent yn gydaddysgol).

Ysgol Gyfun

Ysgol sy'n darparu ar gyfer bob cymhwyster a gallu.

Ysgol Ddyddiol

Ysgol nad yw'n cynnig cyfleusterau preswyl.

Ysgol Gymunedol/a Gynhelir

Ysgol sy'n cael ei hariannu a'i chynnal gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Ysgol nad yw'n cael ei Chynnal neu Ysgol Annibynnol

Ysgol nad yw'n cael ei hariannu neu'i chynnal gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Ysgol dan Nawdd Gwirfoddol

Ysgol a gynhelir sy'n rheoli nifer y disgyblion a dderbynnir iddi a lle mae'r ddarpariaeth addysg grefyddol dan reolaeth corff llywodraethol yr ysgol.

Ysgol Waddoledig (yn flaenorol ysgol a gynhelir gan grant)

Ysgol a gynhelir sy'n rheoli nifer y disgyblion a dderbynnir iddi a lle mae'r corff llywodraethol yn cyflogi'r staff.

Dalgylch

Yr ardal ddaearyddol y bwriedir i'r ysgol ei gwasanaethu.

Dalgylch Traws Ffiniol

Dalgylch sy'n croesi i mewn i awdurdod unedol arall.

Nifer Derbyn Uchat

Rhaid I holl ysgolion a gynorthwyir, dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn (ND). Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y dylid eu derbyn I grwp oedran perthnasol os ceir digon o geisiadau.

Mae'r nifer derbyn yn cymryd lle'r nifer safonol (STN) neu'r terfyn derbyn cyhoeddedig (PAL) a ddefnyddiwyd ar gyfer derbyniadau yn y gorffennol. Cyfrifir y nifer derbyn drwy rannu'r lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a'r nifer o grwpiau blwyddyn fydd ar gael yn yr ysgol. Ceir fanylion pellach ynglyn a'r niferoedd derbyn yn y Cyfeiriadur Ysgolion sydd yn dechrau.

Y Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl gyfleoedd dysgu a ddarperir gan yr ysgol, y mae nifer ohonynt yn digwydd o fewn yr ystafell ddosbarth dan reolaeth uniongyrchol yr athro/athrawes, wedi'u hategu gan ystod o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan gynnwys ymweliadau addysgol ac astudiaethau maes.

Grwpiau Blwyddyn

Dosbarth Meithrin			3-4 oed
Dosbarth Derbyn	=	blwyddyn 1af babanod	4-5 oed
Blwyddyn Un	=	babanod canol	5-6 oed
Blwyddyn Dau	=	babanod uchaf	6-7 oed
Blwyddyn Tri	=	blwyddyn 1af iau	7-8 oed
Blwyddyn Pedwar	=	2il flwyddyn iau	8-9 oed
Blwyddyn Pump	=	3ydd flwyddyn iau	9-10 oed
Blwyddyn Chwech	=	iau uchaf	10-11 oed
Blwyddyn Saith	=	blwyddyn 1af uwchradd	11-12 oed
Blwyddyn Wyth	=	2il flwyddyn uwchradd	12-13 oed
Blwyddyn Naw	=	3edd flwyddyn uwchradd	13-14 oed
Blwyddyn Deg	=	4edd flwyddyn uwchradd	14-15 oed
Blwyddyn Un ar ddeg	=	5ed flwyddyn uwchradd	15-16 oed
Blwyddyn Deuddeg	=	blwyddyn 1af yn y chweched dosbarth	16-17 oed
Blwyddyn Tair ar ddeg	=	2il flwyddyn yn y chweched dosbarth	17-18 oed

Addysg Feithrin a Darpariaeth Cyn-ysgol arall

O fis Medi 2004 ymlaen, bydd pob plentyn yn gallu mynychu uned feithrin, neu gylch chwarae neu leoliad gwarchod plant sydd sicrwydd ansawdd, yn rhad ac am ddim, bum diwrnod yr wythnos, yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn ddair oed.

Mae 28 o unedau meithrin mewn ysgolion ym Mlaenau Gwent, gan gynnwys un uned feithrin cyfrwng Cymraeg a sawl cylch chwarae y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau. Mae gan bob uned feithrin ddalgylch cyfyngedig ac wrth dderbyn plant, ystyrir yr holl blant oddi mewn i'r dalgylch cyn y rhoddir ystyriaeth I blant o du allan i'r dalgylch. I gael gwybodaeth bellach am argaeledd lleoedd amser llawn ffoniwch 01495 311 556.

Gellir cael manylion am ddarpariaeth meithrin gan benaethiaid ysgolion cynradd gydag unedau meithrin, neu'r Adran Addysg. Dylid gwneud ceisiadau i blant fynychu unedau meithrin i benaethiaid. Caiff rhieni eu hysbysu o ganlyniad eu cais yn y man. Pan fyddant yn cyflwyno ceisiadau, gofynnir i rieni ddarparu tystysgrif geni'r plentyn er mwyn dilysu'r dyddiad geni ac unrhyw ddogfennau priodol yr ystyrir yn angenrheidiol i ddilysu'r cyfeiriad cartref.

Gwasanaeth Gwybodaeth Plant

Fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am ofal plant yn eu hardal.

Mae cylchlythyr chwarterol yn nulliad Cenedlaethol Cymru'n mynnu y dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant (CIS) ddarparu gwybodaeth am ddim am wasanaethau plant o fewn yr Awdurdod megis Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Chwarae, Gwarchodwyr Plant, Meithrinfeydd dydd, Nanis, Clybiau tu allan i oriau ysgol, Cynlluniau Chwarae yn ystod y gwyliau, Gweithgareddau Hamdden, Mudiadau Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg a'r Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant leol.

GWASANAETH GWYBODAETH PLANT Rhadffôn 08000 323339.

Mae cylchlythyr chwarterol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y bartneriaeth plant a phobl ifanc. I gael copi o'r rhifyn diweddaraf ffoniwich y rhif uchod.

Clybiau Gwarchod Plant Tu Allan i Oriau Ysgol

Mae Cynlluniau Gwarchod Plant Tu Allan i Oriau Ysgol yn addas i blant rhwng 4-14 oed ac maent yn darparu gofal cyn ac ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.

Mae'r rhaglen yn rhoi cymorth i deuluoedd a rhieni (gan gynnwys darpar rieni) wneud yn sicr fod eu plant yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd.

Nod Rhaglen Cychwyn Cadarn Blaenau Gwent yw gweithio gyda phlant 0-3 oed a'u teuluoedd. Am ragor o fanylion am y gwasanaethau a gynigir cysylltwch a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant am ddim ar 08000 323339.

Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n anelu i wella canlyniadau ar gyfer plant 0-3 oed o fewn ardaloedd targed drwy ddarparu gwasanaeth blynyddoedd cynnar ansawdd uchel. Bydd y dewis o wasanaethau a ddarperir yn lleol yn cynnwys gofal plant ansawdd uchel ar gyfer plant 2 oed ar sail

hanner amser (dim ond ar gael mewn ardaloedd dynodedig Dechrau'n Deg), mwy o ymwelwyr iechyd, rhaglenni magu plant a sgiliau sylfaenol.

Mae ardaloedd cychwyn cadarn dynodedig yn cynnwys Sirhywi, Garnlydan, Coed y Garn, Deighton, Swfrydd a Sant Illtyd (seiliedig ar ddalgylchoedd ysgol).

Ffoniwch y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ar RHADFFÔN 08000 32 33 39 os ydych yn byw o fewn ardal ddynodedig Dechrau'n Deg ac yr hoffech wybodaeth bellach.

Genesis Cymru – Dechrau Newydd i Rieni a Phlant

Mae Genesis Cymru yn brosiect i helpu rhieni i oresgyn llawer o'r rhwystrau sy'n eu hwynebu pan fyddant eisiau dychwelyd i'r gwaith

Er enghraifft, gall gofal plant fod yn rhwystr enfawr i rieni. Mae'n aml yn ddrud ac yn anodd dod o hyd iddo. Drwy weithio'n agos gyda theuluoedd, gall prosiect Genesis gynnig cymorth ariannol a chefnogaeth arall i rieni sydd angen gofal plant fforddiadwy er mwyn dilyn cyrsiau a chyfleoedd gwaith.

Ffoniwch aelod o dîm Genesis ar RHADFFÔN 08000 32 33 39 os hoffech wybodaeth bellach, cyngor ac arweiniad.

Chwarae

Mae staff Datblygu Chwarae yn helpu i wella darpariaeth chwarae bresennol a 22datblygu mwy o gyfleoedd chwarae o fewn yr ardal. Maent yn hyrwyddo chwarae ansawdd da a dysgu hwyliog i oedolion a phlant. Rhoddir sylw neilltuol i hyrwyddo pwysigrwydd darpariaeth chwarae mynediad agored ansawdd uchel. Mae hyn yn chwarae sy'n digwydd mewn amrediad o osodiadau, megis y Ganolfan Plant Integredig yn y Blaenau, cynlluniau chwarae gwyliau lleol neu barciau/ardaloedd chwarae lleol a meysydd chwarae ysgol yn ystod gwyliau'r haf.

Mae darpariaethau chwarae mynediad agored yn golygu y gall plant a phobl ifanc, 5 - 15 oed, fynd a dod fel y dymunant. Mae gweithwyr chwarae yn rhedeg y sesiynau chwarae ac ni fyddent yn rhwystro plant rhag gadael os dymunant wneud hynny.

Mae staff hefyd yn cynnig cefnogaeth i Glybiau Gofal Plant Allan o'r Ysgol wrth wella ansawdd y cyfleoedd chwarae y maent yn eu darparu. Maent hefyd yn darparu gweithdai chwarae a hyfforddiant ar gyfer grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn rhedeg sesiynau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.

I gael gwybodaeth bellach ar chwarae mynediad agored neu gefnogaeth i ddatblygu darpariaeth chwarae cymunedol lleol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ar 08000 32 33 39.

Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd

Mae'r Ganolfan Plant Integredig yn seiliedig yn y Blaenau (Hen Ysgol Babanod Blaenau) ac mae ar agor bob dydd i bob teulu sy'n byw ym Mlaenau Gwent.

Mae'r ganolfan yn cynnig amrediad eang o wasanaethau yn cynnwys cylch meithrin, grŵp chwarae, clwb babanod, cyfleusterau crèche, sesiynau chwarae mynediad agored, galw heibio Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifanc, gwasanaeth cynghori, sesiynau iaith a chwarae a rhianta.

Gall y ganolfan hefyd gynnig rhaglen hyfforddiant amrywiol sy'n ateb anghenion y gymuned. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ar Rhadffôn 08000 32 33 39.

Prosiect Rhianta ym Mlaenau Gwent

Mae'r prosiect rhianta ym Mlaenau Gwent yn darparu amrediad o raglenni a gweithdai i gefnogi rhieni a theuluoedd ar bob lefel o angen. Nod y prosiect yw darparu rhaglenni 'ansawdd da' a chyngor cyson ar fagu plant, gan annog rhieni a gofalwyr i gyrchu cefnogaeth ar sail wirfoddol.

Mae tystiolaeth gref fod gan rianta effaith sylweddol ar gyfleoedd bywyd plentyn. Gall perthynas gref a chariadus rhwng rhiant a phlentyn adeiladu hyder a hunan-barch plentyn, a fydd yn gwneud y pontio i fywyd fel oedolyn yn daith hapus a phleserus.

Mae'r holl raglenni rhianta yn rhad ac am ddim – i gael gwybodaeth bellach, cyngor ac arweiniad, cysyllter â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant ar Rhadffôn 08000 32 33 39.

Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS)

Mae NYAS yn elusen Brydeinig sy'n darparu gwasanaeth ar hawliau plant a gwasanaeth cymdeithasol-gyfreithiol. Cynigiant wybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae NYAS yn anelu i ddarparu a datblygu ei wasanaethau drwy gyfranogiad pobl ifanc sy'n cynnwys rhan ar bob lefel o'r sefydliad.

Os ydych yn blentyn, person ifanc neu'n ffonio ar ran plentyn neu berson ifanc ac angen help, gwybodaeth neu gyngor, medrwch gysylltu â'r gwasanaeth ar rif y llinell gymorth RHADFFÔN 0800 61 61 01, anfon neges testun at 0777 333 4555 neu anfon neges e-bost at *help@nyas.net*.

Siop Un-Stop ar gyfer Cwynion a Sylwadau Plant

Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Siop Un-Stop ar gyfer plant, dan yr enw Cyfaill Gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl ifanc 5-18 oed i fedru cael mynediad i wasanaeth sy'n ei gwneud yn rhwyddach iddynt gwyno, canmol neu roi sylwadau am unrhyw wasanaeth awdurdod lleol, a hefyd yn eu hannog i wneud hynny.

Gall plentyn gyrchu'r gwasanaeth drwy radffôn, neges testun neu e-bost. Bydd Cyfaill Gwasanaeth yn ateb eu galwad, ymchwilio eu cwyn a rhoi ymateb iddynt. Caiff pob cwyn ei logio a'i adrodd drwy gylch adrodd ffurfiol yr Awdurdod.

Mae pobl ifanc wedi cynllunio taflenni a phosteri am y gwasanaeth, a chaiff y gwasanaeth gyhoeddusrwydd eang ledled yr Awdurdod.

Caiff y gwasanaeth hefyd ei gefnogi gan eiriolaeth ar gyfer rhai grwpiau o blant. Bydd eiriolydd yn helpu plentyn i wneud cwyn, ac i gael eu llais wedi'i glywed.

Caiff rhai o bolisïau'r Awdurdod eu diwygio i sicrhau ei fod yn ddyletswydd ar staff awdurdodau lleol a chyflogeion dan gontract i roi adroddiad am unrhyw gamymarfer gyda phlant.

Rhif ffôn y Cyfaill Gwasanaeth yw:

RHADFFÔN 08000 121 123 neu
Testun at 07786 202915
e-bost:help@servicebuddy.co.uk

Trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol y Fwrdeisdref Sirol

(a) Ysgolion Cynradd

Bydd penaethiaid ysgolion cynradd yn darparu ffurflenni derbyn i rieni a gwneir trefniadau i rieni ymweld ag ysgolion yn ystod y tymor cyn i'w plant gael eu derbyn.

Mae plant yn gymwys i gael eu derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y maent yn cael eu pen-blwydd yn bump oed (h.y. 1 Medi hyd 31 Awst yn gynwysedig). Nid oes disgwyl cyfreithiol i blant fynychu'r ysgol hyd nes y tymor ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed.

Gofynnir i rieni nodi pa ysgol sydd orau ganddynt i'w plentyn fynychu, naill ai'r ysgol ddalgylch neu ysgol y tu allan i'r dalgylch y maent yn byw ynddo. Gall rhieni enwi mwy nag un ysgol yn y drefn sydd orau ganddynt a bydd yr Awdurdod yn ceisio cydymffurfio ag o leiaf un o'r dewisiadau, ar yr amod nad yw cydymffurfio yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac ar yr amod bod yr Awdurdod Addysg Lleol yn gallu cwrdd â'r gofynion ar gyfer maint dosbarthiadau babanod. Wrth ymdrin â derbyn disgyblion bydd yr Awdurdod yn ystyried safbwyntiau'r pennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol.

Mae'n rhaid i rieni plant nad ydynt yn byw o fewn Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, ond sydd am i'w plant fynychu ysgol yn yr ardal, wneud cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. Rhaid dychwelyd ffurflenni derbyn i'r ysgol ddalgylch, beth bynnag yw'r dewis, erbyn 30 Tachwedd 2008 Bydd rhieni'n cael eu hysbysu yn ystod mis Chwefror/Mawrth.

(b) Ysgolion Uwchradd

Mae plant yn trosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y maent yn cael eu pen-blwydd yn ddeuddeg oed (h.y. 1 Medi hyd 31 Awst yn gynwysedig).

Yn ystod y tymor ysgol cyn cael eu derbyn bydd yr Awdurdod Addysg lleol yn darparu ffurflen dderbyn i bob disgybl blwyddyn 6, trwy eu hysgol. Bydd rhaid llenwi a dychwelyd y ffurflen honno i'r ysgol erbyn y dyddiad a nodir. Mae'r ffurflenni hyn yn cael eu hanfon ymlaen i Tfl ¯yl i'w prosesu (dyddiad cau 30 Tachwedd 2007). Bydd gan yr holl blant hynny sy'n byw o fewn dalgylch ysgol benodol yr hawl i fynychu'r ysgol honno yn awtomatig tra bydd y rheiny sy'n gwneud cais i fynychu ysgol y tu allan i'w dalgylch yn cael gwybod yn ystod Chwefror/Mawrth a yw'r Awdurdod wedi gallu cydymffurfio â'u dewis, h.y. ar yr amod nad yw cydymffurfio yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon a/neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Wrth ymdrin â derbyn myfyrwyr bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau'r pennaeth a chorff llywodraethol yr ysgol.

Mae'n rhaid i rieni plant nad ydynt yn byw o fewn Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ond sydd am i'w plant fynychu ysgol yn yr ardal wneud cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes erbyn 30 Tachwedd 2007 (mae trefniadau arbennig mewn grym ar gyfer derbyn disgyblion ag anghenion arbennig).

Gofynnir i rieni lenwi'r holl ffurflenni derbyn a'u dychwelyd erbyn y dyddiad cau. Gall methu â gwneud hyn arwain at wrthod lle i ddisgyblion yn yr ysgol o'u dewis, os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y llefydd sydd ar gael.

Trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhwng ysgolion

Mae gofyn i rieni wneud cais ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes pan fyddant yn dymuno trosglwyddo, gan roi manylion llawn am y rhesymau dros eu cais. Gall rhieni enwi mwy nag un ysgol yn y drefn sydd orau ganddynt a bydd yr Awdurdod yn ceisio cydymffurfio ag o leiaf un o'r dewisiadau ar yr amod nad yw cydymffurfio yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw gofnodion ysgol ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael, y math cyffredinol o addysg sydd fwyaf addas ar gyfer y plentyn dan sylw a safbwyntiau'r llywodraethwyr a'r penaethiaid.

Mynediad i Ysgolion Arbennig ac Unedau

Caiff mynediad i ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd gyda chyfleusterau arbenigol ar gyfer plant gydag amrediad eang o anghenion addysgol arbennig ei drafod drwy drefniant arbenig drwy'r Prif Swyddog Addysg.

Mynediad i Ysgolion dan Nawdd Gwirfoddol

Gan mai Cyrff Llywodraethol Ysgolion dan Nawdd Gwirfoddol sy'n gyfrifol am broses dderbyn yr ysgol, mae gan bob ysgol ei pholisi ei hun. Fel rheol, rhoddir blaenoriaeth ar sail enwad, pellter y cartref o'r ysgol, brodyr/chwiorydd ac ati.

Dylai rhieni gysylltu â'r ysgol dan sylw er mwyn cael manylion llawn y broses dderbyn. Cofiwch fod gan bob ysgol ddyddiad cau a dylech gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Ysgol Gynradd ac Uned Feithrin Babyddol yr Holl Seintiau

Gellir cael copïau o'r polisi derbyn wrth y Prif Athro yn Ysgol Gynradd Babyddol yr Holl Seintiau, Heol-yr-Ysgol, Glyn Ebwy, NP23 6QP.

Ysgol Gynradd ac Uned Feithrin Babyddol Brynmawr

Gellir cael copïau o'r polisi derbyn wrth Glerc y Corff Llywodraethol yn Ysgol Gynradd Babyddol Brynmawr, Catholic Road, Brynmmawr NP23 EF.

Ysgol Gynradd Babyddol Sant Joseff

Gellir cael copïau o'r polisi derbyn wrth y Prif Athro yn Ysgol Gynraddd Babyddol sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 3QT.

Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Santes Fair

Bydd plant yn cael eu hystyried yn ôl y meini prawf canlynol:

1. Wrth dderbyn plant i'r ysgol, rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sydd â brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd neu sydd wedi mynychu'r ysgol yn y gorffennol.

2. Pe bai gormod o geisiadau'n dod i law, bydd y llefydd sy'n weddill yn mynd i:

   (a) Plant sydd wedi eu bedyddio i mewn i'r Eglwys Gristnogol Anglicanaidd, neu sy'n mynychu'r Ysgol Sul, neu blant y mae eu rhieni yn gymynwyr rheolaidd yn yr Eglwys yng Nghymru neu Eglwys Gristnogol nad yw'n Anglicanaidd. (Rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol gyda'r ffurflen dderbyn).

   (b) Plant i rieni sy'n aelodau ffyddlon o grefydd arall sy'n dymuno i'w plant gael addysg â sail grefyddol ddi.

   (c) Pe bai'r ffactorau eraill yn eithaf cyfartal, rhoddir llefydd ar sail pellter y cartref o'r ysgol.

Mynediad i Ysgolion Gwaddoledig

Corff Llywodraethol Ysgol Waddoledig sy'n uniongyrchol gyfrifol am reoli proses dderbyn yr ysgol. Pe bai nifer y ceisiadau'n fwy na'r llefydd sydd ar gael, bydd y llefydd yn cael eu rhannu yn ôl y meini prawf gordanysgrifio a gytunwyd gan gorff llywodraethol pob ysgol. Cofiwch, mae'n bosibl y bydd gan rai ysgolion ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.

Ysgol Gyfun Brynmawr

Pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na'r llefydd sydd ar gael, mae llefydd yn cael eu dyfarnu gan y Llywodraethwyr i ddisgyblion yn y categorïau isod, yn y drefn ganlynol:

a) Pan fo brawd neu chwaer y plentyn eisoes yn mynychu'r ysgol.

b) Pan fo rhesymau meddygol dros dderbyn y plentyn.

c) Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y dalgylch gwreiddiol) ar yr amod bod rhieni'n arwyddo contract yn cytuno i gyfranogi yn y bartneriaeth 3 ffordd sy'n cysylltu:

- Ymrwymiad yr Ysgol
- Ymrwymiad y Disgybl
- Ymrwymiad y Rhiant

Dewis y rhieni o ysgol

Polisi'r Awdurdod yw rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn dalgylch ysgol wrth benderfynu pa blant gaiff eu derbyn i'r ysgol honno, cyhyd â bod y rhieni'n mynegi mai honno yw'r ysgol o'u dewis a bod yr AALl yn gallu cwrdd â'r gofynion ar gyfer maint dosbarthiadau babanod.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod a chyrff llywodraethol ysgolion sicrhau bod dosbarthiadau derbyn, a dosbarthiadau blwyddyn un a dau wedi'u cyfyngu i 30 o ddisgyblion. Wrth ystyried ceisiadau derbyn neu drosglwyddo bydd yr Awdurdod yn ystyried:-

- nifer y disgyblion sydd eisoes oddi mewn i ddalgylch yr ysgol a'r nifer amcanol ar gyfer y dalgylch yn y dyfodol;
- y staff addysgu sydd ar gael a chymarebau disgybl:athro;
- cyfyngiadau safle ac adeiladau'r ysgol;
- cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol yn y dyfodol yn deillio o faterion megis cynnydd yn y gyfradd genedigaethau neu ddatblygiadau tai yn yr ardal;
- y gofynion o ran maint dosbarthiadau babanod;
- unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon a/neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

Mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer safonol, o leiaf, (neu'r nifer derbyn sydd wedi'i gyhoeddi os yw'n uwch na'r nifer safonol) ar gyfer y flwyddyn dderbyn gyffredin. Nid oes hawl awtomatig gan frodyr neu chwiorydd iau sy'n byw y tu allan i ddalgylch eu hysgol ddewisedig (boed honno'n ysgol gynradd neu uwchradd) i fynychu'r un ysgol â'u brodyr neu chwiorydd hyn sy'n dal i fynychu.

Lle bo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael defnyddir y meini prawf canlynol i bennu pa ymgeiswyr fydd yn cael cynnig lle:

(i) rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n ceisio mynediad ar sail feddygol, a gefnogir gan swyddog meddygol;

(ii) bydd plant sydd â brodyr neu chwiorydd hyn yn yr ysgol adeg eu derbyn yn cael blaenoriaeth dros y rheiny heb frodyr neu chwiorydd hyn yn yr ysgol;

(iii) lle mae mwy nag un achos fel yn (ii), bydd blaenoriaeth yn cael ei hasesu ar sail y plant hynny sydd agosaf o ran oed i'w brodyr neu chwiorydd sydd eisoes yn yr ysgol adeg eu derbyn;

(iv) mewn perthynas ag ysgolion dan reolaeth wirfoddol, rhoddir blaenoriaeth yn hyn o beth i rieni sy'n mynegi dewis ar sail enwadol ac sydd eu hunain yn mynd i'r eglwys yn rheolaidd;

(v) wedi ystyried categorïau (i-iv), bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar bellter rhwng y cartref a'r ysgol wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael o gartref y plentyn.

Os nad yw'n bosibl cael mynediad i ysgol oherwydd gofynion maint dosbarthiadau, darperir cludiant i'r ysgol agosaf nesaf sydd â llefydd ar gael (yn amodol ar gyfyngiadau pellter).

Y Weithdrefn Apelio

Yn y rhan fwyaf o enghreifftiau, cynigir lle i blentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan ei rieni. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, mae gan yr Awdurdod drefniadau lle gall rhieni apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad y mae'r Awdurdod yn ei wneud mewn perthynas â mynediad i ysgol a throsglwyddo rhwng ysgolion.

Lle bu'n rhaid gwrthod mynediad bydd y rhieni'n cael eu hysbysu o'r rheswm (rhesymau) dros wrthod ac o'r weithdrefn apelio i'w dilyn wedi hynny.

Bydd pwyllgor apeliadau annibynnol yn ymdrin ag unrhyw apeliadau. Bydd y pwyllgor hwnnw'n cael ei sefydlu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a bydd rhieni'n cael eu hysbysu o'u hawliau mewn llythyr.

Disgyblion sydd wedi'u Heithrio o'r Ysgol yn Barhaol

Gall awdurdod derbyn wrthod cydymffurfio â dewis rhieni am gyfnod o hyd at ddwy flynedd os yw plentyn yn cael ei eithrio'r o'r ysgol am yr eilwaith neu fwy. Does dim hawl gan rieni i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

Dyddiad Gadael yr Ysgol

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno un dyddiad gadael ysgol, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol y mae disgybl yn cyrraedd 16 oed. Nid yw disgyblion yn gallu ymgymryd â chyflogaeth amser llawn cyn y dyddiad hwnnw.

Addysg ôl-16

Mewn ysgolion 11 - 18 oed bydd disgyblion yn cael cyfle i sefyll arholiadau Safon Uwch (lefel A) a chyrsiau galwedigaethol eraill.

Bydd disgyblion mewn ysgolion 11 - 16 oed sy'n dymuno dilyn cyrsiau o'r fath yn cael cyfle i fynychu ysgol arall yn yr ardal sydd â chweched dosbarth neu drosglwyddo i Goleg Addysg Bellach.

Cytunir i ddewis y rhieni o goleg ar yr amod nad yw'n arwain at ddefnydd ychwanegol o adnoddau. Lle bo'r cwrs y dymunir ei ddilyn yn cael ei ddarparu yn yr ysgol briodol agosaf, a lle cytunir i ganiatáu i ddisgybl fynychu sefydliad arall yn unol â'i ddewis, bydd hynny ar yr amod na fydd unrhyw gludiant yn cael ei ddarparu.

Addysgu Cymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg

Dan ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ysgolion yng Nghymru a'r rheoliadau a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae gan bob disgybl yr hawl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg os yw eu rhieni'n dymuno hynny ac mae'r Gymraeg fel ail iaith yn bwnc gorfodol i bob disgybl o 5-16 oed mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Eithriadau

Mae'r rheoliadau'n eithrio disgyblion o'r tu allan i Gymru sy'n dod i ysgol yn ystod y 3ydd neu'r 4ydd flwyddyn o addysg uwchradd.

Addysg Cyfrwng Cymraeg

I rieni sydd am i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion o oed cynradd yn Ysgol Gymraeg Brynmawr. Mae'r ysgol hon yn darparu ar gyfer y galw trwy'r Fwrdeisdref Sirol ar gyfer y grwpiau oed o'r oed meithrin i flwyddyn 6.

Mae Ysgol Gyfun Gwynllyw yn darparu ar gyfer disgyblion o oed uwchradd. Lleolir yr ysgol hon ym Mhont-y-pˇl. Fodd bynnag, gall rhieni hefyd wneud cais i'w plant fynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill mewn AALlau eraill. Fel yn achos addysg cyfrwng Saesneg mae'n rhaid i rieni sy'n dymuno i'w plant fynychu ysgol neu uned cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Fwrdeisdref Sirol wneud cais ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yr Awdurdod Addysg Lleol dan sylw.

Bydd plant sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Brynmawr yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw y pellter priodol o'r ysgol yn unol â threfniadau arferol yr Awdurdod.

Bydd disgyblion sy'n mynychu ysgolion uwchradd, e.e. Ysgol Gyfun Gwynllyw, hefyd yn cael cludiant am ddim yn amodol ar y cyfyngiadau a restrir ar dudalen 12.

Addysg Uwchradd ar gyfer Disgyblion sy'n byw yn Ardaloedd Sofrydd/Llanhiledd

(a) Trefniadau Derbyn

Yr ysgolion cyfun dynodedig ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Sofrydd a Llanhiledd yw Ysgol Gyfun Abertyleri (11 - 16 oed) neu Ysgol Gyfun Nantyglo (11 - 18 oed). Dylai rhieni sydd am i'w plant fynychu ysgol y tu allan i'r Fwrdeisdref Sirol, e.e. Trecelyn neu Oakdale, wneud cais i Gyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes AALl Caerffili. Bydd mynediad yn dibynnu ar nifer y llefydd sydd ar gael. Os na fydd nifer digonol o lefydd ar gael rhoddir blaenoriaeth i blant sydd â brodyr neu chwiorydd hyn yn yr ysgolion hyn ar y dyddiad derbyn.

(b) Trefniadau Cludiant

Darperir cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgolion Cyfun Abertyleri neu Nantyglo yn amodol ar gyfyngiadau pellter. Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Cyfun Trecelyn neu Oakdale os mai'r ysgol honno yw'r ysgol agosaf i'w cartref.

Cludiant Ysgol a Choleg (ac eithrio ar gyfer Addysg Arbennig)

Disgyblion rhwng 5-16 oed

Meini prawf cyffredinol ar gyfer darparu cludiant am ddim:-

(a) Fel rheol, mae cludiant am ddim wedi'i gyfyngu i ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol ddalgylch ac sy'n byw'r pellter gofynnol oddi wrth yr ysgol.

Gall y pellteroedd a ddyfynnir gael eu hadolygu, hyd at y terfyn statudol.

Dan 8 mlwydd oed - os yn byw mwy na 1.5 milltir o'r ysgol. (Terfyn statudol 2 filltir).
8 mlwydd oed a hyn - os yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol. (Terfyn statudol 3 milltir).

Mae pellteroedd yn cael eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol. Nid yw'n bosibl trefnu bod taith cerbydau yn galw ger cartref pob disgybl. Felly mae'n bosibl y bydd angen trefnu eu bod yn cyrraedd y 'man codi' agosaf. Gwneir pob ymdrech i gyfyngu'r pellter hwn ac ni ddylai fod yn fwy nag 1 filltir.

(b) Mannau Peryglus - mae'n bosibl y darperir cludiant am ddim lle mae'r Awdurdod yn fodlon bod y llwybr rhwng yr ysgol a'r cartref yn ddigon peryglus i hawlio darpariaeth o'r fath er bod y pellter yn is na'r rhai a ddyfynnir uchod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y meini prawf canlynol:

(i) nad oes gwasanaeth bws yn teithio ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol, a
(ii) bod y perygl mor ddifrifol nes bod rhieni sy'n hebrwng eu plant yn cael eu peryglu gan y sefyllfa drafnidiaeth arbennig.

(c) Seddi gwag - mae'n bosibl y bydd disgyblion yn gallu llanw seddi gwag ar fysus ysgol fel consesiwn dros dro er nad ydynt yn bodloni'r meini prawf y cyfeirir atynt uchod. Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod yn codi unrhyw dâl am ddarparu cludiant mewn achosion o'r fath. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid tynnu consesiynau yn ôl ar fyr rhybudd.

(d) Treuliau eraill - nid yw costau sy'n deillio o deithio i'r ysgol ac o'r ysgol yn cael eu had-dalu.

(e) Symud tfl - fel rheol, ni fydd disgyblion sy'n symud tfl i gyfeiriad y tu allan i'r dalgylch yn dal i gael cludiant am ddim i'r ysgol honno os ydynt yn symud yn ystod blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn eu haddysg yn yr ysgol honno, hyd yn oed os yw'r meini prawf a nodir yn (a) neu (b) uchod yn cael eu bodloni. Bydd ceisiadau ar gyfer plant sy'n symud yn ystod y drydedd flwyddyn neu flynyddoedd dilynol o fynychu'r ysgol honno yn cael eu hystyried os y gellir darparu cludiant gan y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes.

(f) Ysgolion preifat - ni ddarperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion preifat.

Dylai rhieni sydd ag unrhyw bryderon neu ymholiadau ynghylch cludiant gysylltu â'r ysgol neu'r Adran Addysyg.

Disgyblion 16-19 oed

Ni ddarperir cludiant am ddim i ddisgyblion / myfyrwyr sy'n 19 oed neu'n hyn.

Ar gyfer y disgyblion/myfyrwyr hynny, rhwng 16-19 oed, mae'r Awdurdod yn darparu grant teithio o £213 naill ai fel cyfraniad tuag at brynu tocyn tymor neu fel lwfans ariannol, yn amodol ar gyfyngiadau pellter.

(Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol). Mae Côd Ymarfer ar gyfer disgyblion, myfyrwyr, rhieni, ysgolion a chwmnïau cludiant ar gael oddi wrth yr Awdurdod.

Llaeth

Darperir llaeth am ddim i ddisgyblion ysgolion meithrin/babanod sydd wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun darparu llaeth am ddim. Fodd bynnag, mae darparu llaeth yn amodol ar ganiatâd y rhieni. Darperir llaeth i ddisgyblion mewn ysgolion preswyl arbennig ac i ddisgyblion mewn ysgolion eraill y mae angen llaeth arnynt am resymau meddygol.

Prydau Bwyd

Darperir prif bryd ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd.

Mae'r prisiau'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, ac ar hyn o bryd maent fel a ganlyn:

Babanod	-	£1.70
Iau	-	£1.80
Uwchradd	-	£1.95

* Ym mhob ysgol uwchradd ceir gwasanaeth bar bwtri. Mewn rhai achosion bydd y tâl am y prif bryd yn cael ei ddileu yn llwyr. Mae disgyblion sy'n gymwys ar gyfer dileu'r tâl ond y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r gwasanaeth bar bwtri yn derbyn swm sy'n gyfwerth â phris y prif bryd i'w ddefnyddio i dalu cost yr eitemau a brynir. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu prydau ysgol di-dâl i ddisgyblion o deuluoedd sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceiswyr Swydd seiliedig ar incwm, Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gweithio) gydag incwm blynyddol dan £14,495, elfen gwarant Credyd Pensiwn Gwladol a chefnogaeth dan ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Mae hyn hefyd yn weithredol ar gyfer disgyblion mewn ysgolion dydd arbennig.

Mae ffurflenni cais ar gael gan benaethiaid ysgol neu'r Adran Addysg.

Grantiau Dillad

Os oes angen gwyboadaeth bellach arnch, cyyslltwch ar 01495 311556.

Cefnogaeth i Ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r Awdurdod yn rhoi adnoddau ychwanegol i bob ysgol i'w galluogi i ateb anghenion addysgol amrediad eang o ddisgyblion. Mae hyn yn golygu y gall llawer o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol fynychu eu hysgolion prif ffrwd lleol a chael eu cynnwys yn effeithlon yn yr amrediad llawn o gyfleoedd addysgol sydd ar gael yno.

Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru yn cynnwys arweiniad ar sut y dylai rhieni, ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ymwneud â dynodi, asesu a darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda AAA. Mae'n ofynnol i bob ysgol benodi cydlynydd anghenion addysgol arbennig a all roi cyngor ac arweiniad i rieni ar ddarpariaeth yn eu hysgolion a hefyd yn fwy cyffredinol ar agweddau eraill.

Mae hefyd yn ofynnol i bob ysgol gyhoeddi eu polisi ar AAA ac mae gan bob rhiant (presennol neu ddarpar) hawl i ofyn am gopi o'r polisi hwn, na chodir tâl amdano. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r ddarpariaeth AAA yn yr ysgol ac yn nodi sut mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion gyda AAA a sut y rheolir cefnogaeth ychwanegol ac ymyriadau.

Weithiau bydd angen i ddisgyblon gael eu hasesu'n ffurfiol a gall hyn weithiau arwain at i'r Awdurdod gyhoeddi a chynnal 'Datganiad' o Angen Addysgol Arbennig. Mae hyn yn diffinio a disgrifio yr anghenion a ddynodwyd ac yn manylu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ateb yr anghenion hynny. Bydd datganiad hefyd yn enwi'r ysgol fwyaf priodol ar gyfer lleoliad y disgybl. Mae gwybodaeth bellach ar y gweithdrefnau ffurfiol hyn hefyd o fewn y Cod Ymarfer a medrir cael cyngor ac arweiniad pellach drwy gysylltu â Chydlynydd AAA yr ysgol, neu drwy ffonio'r Gwasanaeth Cynhwysiant ar 01495 355443 yn arbennig os yw'r disgybl dan oedran ysgol.

Mae nifer o ysgolion o fewn yr Awdurdod sydd â chyfleusterau mwy arbenigol ar gyfer disgyblion gyda AAA ond mae gan Blaenau Gwent hefyd fynediad i nifer o unedau arbenigol mewn Awdurdodau eraill drwy'r trefniadau cydweithredu ar gyfer AAA ar draws y rhanbarth. Mae manylion pellach ar gael ar gais.

Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu cefnogaeth a darpariaeth ychwanegol ar gyfer 'cynhwysiant', sydd ar gael i bob ysgol ar gyfer disgyblion mewn amgylchiadau neilltuol. Er enghraifft mae disgyblion 'bregus' yn cynnwys rhai sy'n 'derbyn gofal' gan Awdurdod Lleol, disgyblion o deuluoedd teithwyr ac eraill gydag anghenion ychwanegol oherwydd eu hamgylchiadau, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd lleiafrif ethnig.

Yn ogystal â'r agweddau AAA uchod, mae'r Awdurdod yn awr yn cydlynu ei gefnogaeth ar gyfer 'cynhwysiant' dan un fframwaith rheolaeth sy'n cynnwys y meysydd a restrir islaw.

Disgyblion Bregus

Plant sy'n Derbyn Gofal: Mae prosiect cefnogaeth addysg ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn gofal sy'n mynychu ysgolion o fewn Blaenau Gwent. Cyflogir tri Chymhorthydd Cefnogaeth Dysgu, dau ar lefel Cynradd ac un ar lefel Uwchradd. Nod y prosiect cynradd yw cefnogi datblygiad emosiynol ac academaidd disgyblion. Gall ysgolion, gweithwyr cymdeithasol neu ofalwyr maeth gyfeirio disgyblion at y prosiect; caiff rhaglen gefnogaeth ei datblygu wedyn gan yr athro a'r Cymhorthwyr Cefnogaeth Dysgu i ateb anghenion y disgyblion unigol. Caiff disgyblion CA3 eu cefnogi mewn modd cyffelyb ar lefel uwchradd.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion TGAU. Mae gan y gweithiwr cefnogaeth rôl mentora, gan gydlynu gydag athrawon pwnc yng nghyswllt amserlenni gwaith cwrs ac unrhyw anawsterau y gall y disgybl fod yn eu cael.

Disgyblion Sipsi/Teithwyr: Caiff disgyblion o deuluoedd Sipsi neu Deithwyr eu cefnogi o fewn yr ysgol gan staff cefnogaeth dynodedig mewn tair ysgol o fewn y fwrdeisdref. Nod y gefnogaeth hon yw sicrhau fod disgyblion o gefndir Sipsi/Teithwyr yn ymrwymo'n gadarnhaol gydag addysg a gwneir pob ymdrech i sicrhau fod disgyblion yn gadael addysg gyda chymwysterau cydnabyddedig.

Disgyblion Lleiafrif Ethnig: Caiff Adran Addysg Blaenau Gwent eu cefnogi gan Wasanaeth Cefnogaeth Lleiafrifoedd Ethnig Blaenau Gwent (GEMSS) i sicrhau fod disgyblion o bob cefndir lleiafrif ethnig yn medru cael mynediad ac ymrwymo mewn addysg.

Prosiect PROTEUS: Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae hyn yn cynnwys amrediad o ddarpariaethau yn cynnwys 'hyfforddiant cartref' ar gyfer disgyblion sy'n methu mynychu'r ysgol am resymau meddygol. Caiff yr holl ddarpariaeth ar gyfer disgyblion tu allan i'r ysgol yn awr ei reoli dan un prosiect o'r enw PROTEUS. Mae hyn yn dod â nifer o agweddau ynghyd ar gyfer disgyblion mewn amgylchiadau anodd yn ogystal â rhai elfennau o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd angen ymagweddau gwahanol at y cwricwlwm yn arbennig lle dynodwyd anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi esblygu o'i wreiddiau cynnar lle adnabyddid swyddogion fel "Dyn y Bwrdd" neu'r "Daliwr Plant" yn wasanaeth sgilgar iawn, profiadol a gwerthfawr, yn defnyddio talentau lluosog y gweithwyr proffesiynol sy'n awr yn ffurfio'r gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu dyletswydd statudol yr Awdurdod Addysg Lleol drwy gefnogi ysgolion i sicrhau fod pob disgybl o oedran ysgol gorfodol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon er mwyn iddynt gyflawni eu potensial addysgol a chymdeithasol yn unol â Deddf Addysg 1996 a Deddf Plant 1989.

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd yn ymchwilio ac yn cofnodi pob digwyddiad o gyflogaeth plant a pherfformiad plant yn y Fwrdeisdref Sirol yn unol â Deddf Cyflogaeth Plant a Phobl Ifanc (1933).

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol a nodir, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg hefyd yn:

- Darparu cysylltiadau rhwng ysgolion, rhieni, pobl ifanc ac asiantaethau fel a phryd mae angen
- Cynghori ysgolion a rhieni ar sut i ymdrin â materion lles megis troseddau ieuenctid, bwlio, camddefnyddio sylweddau ac ati;
- Ymchwilio materion perthnasol i'r Ddeddf Plant (1989);
- Cynghori Cynadleddau Achosion Amddiffyn Plant o wybodaeth berthnasol parthed plant a theuluoedd.

Mae Swyddog Lles Addysg penodol i gynghori a chefnogi ym mhob ysgol gyfun a chynradd ym Mlaenau Gwent. Mae gweithredu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn y ffordd hon yn galluogi ysgolion, disgyblion a rhieni i adeiladu perthynas gyda'u Swyddog penodol. Gall ysgolion ofyn i Swyddog Lles Addysg i wneud ymweliad cartref neu weld plentyn yn yr ysgol ar unrhyw amser. Gall rhieni hefyd wneud cais i weld Swyddog Lles Addysg am faterion lles a phresenoldeb. Gall pobl ifanc hefyd drafod problemau yn gyfrinachol gyda'u swyddog Lles Addysg os oes angen.

Anawsterau Dysgu Penodol

Mae gan yr Awdurdod wasanaeth canolog i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol dynodedig (er enghraifft dyslecsia) a fydd yn darparu hyfforddiant arbenigol ychwanegol yn ysgol leol y disgyblion.

Addysg Cartref Dewisol

Dyma ble mae rhieni yn darparu ar gyfer addysg eu plant eu hunain drwy wneud trefniadau eraill, yn hytrach na'u hanfon i ysgol leol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol fonitro'r holl addysg a ddarperir yn ei ardal lle bynnag y'i darperir. Felly mae'n rhaid i rieni sy'n dewis addysgu eu plant eu hunain gael cymeradwyaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer y ddarpariaeth. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i rieni roi tystiolaeth i'r Awdurdod o'r ddarpariaeth a bydd angen i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn 'addas'.

Cwynion am Anghenion Addysgol Arbennig

Mae angen i ysgolion nodi yn eu polisïau AAA sut y gall rhieni wneud cwynion ffurfiol am faterion yn ymwneud ag AAA. Dylai'r polisi amlinellu pa weithdrefnau a phrosesau fydd yn weithredol a'r hyn y mae'n rhaid i rieni wneud os oes ganddynt bryderon am y trefniadau a wneir i ddiwallu anghenion eu plant.

Gwasanaeth Seicoleg

Swyddogaeth y Gwasanaeth Seicoleg yw hyrwyddo lles seicolegol plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u hysgolion. Er mwyn gwneud hyn mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu at bolisïau a gwaith cynllunio'r AALl, mae'n darparu hyfforddiant ar gyfer staff ysgol ac yn gweithio gydag asiantaethau eraill. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant unigol, eu rhieni a'u hathrawon ac yn cynorthwyo'r AALl i asesu anghenion addysgol arbennig. Mae seicolegwyr yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd ond gall rhieni ac asiantaethau gysylltu â nhw'n uniongyrchol yn Nfl'r ¯yl.

Gwyliau Teuluol yn ystod Tymor yr Ysgol

Nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu plant o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Dylid gwneud cais ymlaen llaw i'r Pennaeth a fydd yn ystyried ffactorau perthnasol megis:-

- oedran y plentyn:
- yr adeg o'r flwyddyn y bwriedir mynd ar wyliau:
- natur y gwyliau a dymuniadau'r rhieni;
- patrwm presenoldeb y disgybl

Os yw disgybl yn mynd ar ei wyliau, heb i'r ysgol ganiatáu'r cyfnod o absenoldeb, bydd y disgybl yn cael ei gofnodi'n absennol heb ganiatâd.

Polisi Codi a Dileu Tâl

Mae gwybodaeth ynglyn â pholisi codi a dileu tâl ysgol ar gael gan bennaeth yr ysgol dan sylw yn y cyfeiriadau a restrir ar dudalennau 21 - 24.

Yr Arolygiaeth

Mae pob ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn. Yn dilyn arolygiadau, mae adroddiadau cryno ar gyfer rhieni ar gael o'r ysgol ac mae adroddiadau llawn hefyd ar gael o'r ysgol, llyfrgelloedd lleol neu drwy ymweld â gwefan Estyn ar: **www.estyn.gov.uk/inspection_reports.asp**

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys y pynciau craidd Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, a Chymraeg lle bo r iaith honno n brif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Y pynciau sylfaenol eraill yw Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes, Daearyddiaeth, laith Dramor fodern (mewn ysgolion cyfun yn unig), Cerddoriaeth, Celf, Addysg Gorfforol a Chymraeg)lle nad yw n bwnc craidd). Yn ogystal hyn mae n rhaid i bob ysgol ddarparu ar gyfer Addysg Grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol a iechyd.

Ar gyfer pob un o'r pynciau craidd a sylfaen rhagnodir targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer pedwar cyfnod allweddol o fewn y blynyddoedd ysgol gorfodol. Mae'r cyfnodau hyn fel a ganlyn:-

(i) Cyfnod Allweddol 1	- o 5 - 7 oed
(ii) Cyfnod Allweddol 2	- o 7 - 11 oed
(iii)Cyfnod Allweddol 3	- o 11 - 14 oed
(iv) Cyfnod Allweddol 4	- o 14 - 16 oed

Asesiadau Sylfaenol

Mae gan Flaenau Gwent gynllun asesiadau sylfaenol achrededig. Cynhelir asesiadau yn ystod 7 wythnos cyntaf y dosbarth derbyn ac maent o gymorth i athrawon adnabod cryfderau a gwendidau disgyblion a chynllunio rhaglenni dysgu addas ar eu cyfer.

Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant

Mae angen cwricwlwm llai ffurfiol ar blant ifanc sy'n darparu ystod eang o brofiadau ac sy'n briodol i'w hoed a chyfnod eu datblygiad. Mae plant y dosbarth meithrin a derbyn yn profi cwricwlwm sy'n seiliedig ar y canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant hyd at oed ysgol gorfodol a gynhyrchir gan Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) yn seiliedig ar y meysydd dysgu canlynol:- personol, cymdeithasol, iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol.

Mae addysg yn y dosbarth meithrin a derbyn yn cael ei harolygu dan yr un trefniadau â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ond gan ystyried y canlyniadau dymunol yn hytrach na'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cwynion

Mae rheoliadau diweddar a gyflwynwyd dan Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, yn cynnwys ysgolion meithrin, i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau staff, llywodraethwyr, aelodau'r gymuned leol ac eraill.

Fel canlyniad bydd yn bosibl cyn hir i gael manylion llawn am weithdrefn cwynion ysgol gan yr ysgolion a restrir ar dudalennau 21 - 24. Bydd cwynion heb fod yn gysylltiedig ag ysgolion yn parhau i gael eu gwneud i'r Prif Swyddog Addysg Interm. Medrir cael cyngor ac arweiniad pellach ar y gweithdrefnau newydd drwy gysylltu â'r Adran Addysg ar 01495 311556.

Llywodraethwyr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethol sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros y modd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg ac ystod o gyfrifoldebau penodol gan gynnwys cyllid yr ysgol a phenodi staff.

Pobl leol yw cyrff llywodraethol a byddant yn cynnwys rheini, aelodau a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol, athrawon, penaethiaid a gallant gynnwys cynryvhiolwyr o r gymuned fusnes leol a'r Eglwys. Bydd nifer yr aelodau yn dibynnu ar faint yr ysgol.

Medrir cael gwybodaeth ar waith cyrff llywodaethu ysgolion a manylion sut i ddod yn llywodraethydd ysgol gan y Prif Swyddog Addysg Interim, Ty'r Ŵyl, Parc Busnes Victoria, Glyn Ebwy.

Arholiadau Cyhoeddus

Mae gan lywodraethwyr ysgol gyfrifoldeb dros gyflwyno disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus penodol, er y gallant ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i Benaethiaid. Bydd addasrwydd y disgyblion ar gyfer yr arholiadau dan sylw yn arbennig o berthnasol.

Targedau ar gyfer Gwelliant

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethol osod targedau ar gyfer gwelliant yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau statudol a chanlyniadau arholiadau cyhoeddus.

Salwch Difrifol

Pe cyfyd nifer o achosion o salwch difrifol, a allai gynnwys clefyd heintus neu salwch nad yw yr hyn sy'n ei achosi yn hysbys, ceir cydweithio agos rhwng yr ysgol, yr Adran Addysg, Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Iechyd, gyda'r nod o ddarparu cyngor gwybodus i rieni cyn gynted ag sy'n bosibl. Cynghorir rhieni i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf os oes ganddynt unrhyw bryderon ac os oes angen gwybodaeth arnynt ac ni ddylent gredu sïon sydd ar led o fewn y gymuned.

Esboniad o'r symbolau

* Mae ysgolion lle mae nifer y disgyblion eisoes y tu hwnt, neu y disgwylir iddo fynd y tu hwnt, i'r nifer y bwriedir iddynt ddarparu ar eu cyfer yn cael eu dynodi drwy osod seren * o flaen eu henw. Bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn ceisio cwrdd â dewis cyntaf y rhieni o ysgol. Fodd bynnag, os yw rhieni'n methu cael eu plant i'r ysgol a oedd yn ddewis cyntaf iddynt nid oes unrhyw sicrwydd y byddant yn gallu cael lle yn eu hail ddewis, gan y bydd yr ysgol honno o bosibl wedi'i llenwi gan bobl a nododd yr ysgol fel eu dewis cyntaf. Dylai rhieni felly, ystyried eu dewis o ysgol yn ofalus er mwyn osgoi gwastraffu eu dewis cyntaf ar ysgol nad yw'n debygol o allu cynnig lle i'w plant.

✓Uned feithrin yn gysylltiedig

RHESTR O YSGOLION ABERTYLERI

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
Ysgolion Cynradd				
✓*Ysgol Gynradd Abertyleri	Stryd Newall, Abertyleri.NP13 1EH Ffôn: 01495 212684 Ffacs: 01495 321116	454	64	331
✓*Ysgol Gynradd Blaentyleri	Teras y Bont, Abertyleri.NP13 1LD Ffôn: 01495 212412 Ffacs: 01495 214875	125	17	80
✓*Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Bryngwyn	Bryngwyn Hoel, Chwe Chloch, Abertyleri NP13 2PD Ffôn: 01495 212678	236	33	194
✓*Ysgol Gynradd Stryd y Frenhines	Stryd y Frenhines, Abertyleri.NP13 1AP Ffôn: 01495 212179 Ffacs: 01495 212179	184	26	131
✓Ysgol Gynradd y Mileniwm Roseheyworth	Heol Roseheyworth, Abertyleri Ffôn: 01495 322020 Ffacs: 01495 321830	236	33	148
✓Ysgol Gynradd Sofrydd	Heol Sofrydd, Crymlyn. NP13 5DW Ffôn: 01495 244003 Ffacs: 01495 243334	210	30	118
✓Ysgol Gynradd St. Illtyd	Llanhiledd, Abertyleri NP13 2JT Ffôn: 01495 321718	237	33	178
Ysgolion Cyfun (YSTOD OED 11-16 OED)				
* Ysgol Gyfun ac Uned Anghenion Arbennig Abertyleri	Stryd Alma, Abertyleri. NP13 1YL Ffôn: 01495 217121 Ffacs: 01495 211545	919	184	805

RHESTR O YSGOLION BRYNMAWR A NANTYGLO

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
Ysgolion Cynradd				
✓Ysgol Gynradd Blaenycwm	Heol Blaenafon, Brynmawr.NP23 4BR Ffôn: 01495 313524 Ffacs: 01495 313293	359	51	227

DC - Disgybl Cynhwysedd *ND* - Nifer Derbyn *RLDG* - Rhif Disgwyliedig ar Gofrestr

RHESTR O YSGOLION BRYNMAWR A NANTYGLO (parhad)

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
✓ Ysgol Gatholig Brynmawr	Heol Babyddol, Brynmawr. NP23 4EF Ffôn: 01495 310596 Ffacs: 01495 310596	135	19	144
✓ Ysgol Gynradd Coed y Garn	Rhes Parrot, Blaenau NP13 3AH Ffôn: 01495 290044 Ffacs: 01495 293039	300	25	202
✓*Ysgol Gynradd y Santes Fair a gynhelir gan yr Eglwys yng Nghymru	Heol Ganolraddol, Brynmawr NP23 4SE Ffôn: 01495 310525 Ffacs: 01495 313694	180	25	202
✓*Ysgol Gymraeg Brynmawr	Stryd y Brenin, Brynmawr. NP23 4RG Ffôn: 01495 310735 Ffacs: 01495 313203	358	51	266
✓ Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Ystruth	Dwyrain Pentwyn. NP13 3XG Ffôn: 01495 290955 Ffacs: 01495 290955	314	44	298
Ysgolion Cyfun (YSTOD OED 11-18 OED)				
* Ysgol Gyfun Brynmawr Ysgolion Sylfaen	Heol Ganolraddol, Brynmawr. NP23 4XT Ffôn: 01495 310527 Ffacs: 01495 311944	1022	166	934
Ysgol Gyfun ac Uned Anghenion Arbennig Nantyglo	Heol y Llyn, Brynmawr NP23 4WX Ffôn: 01495 310776 Ffacs: 01495 313315	891	161	443

RHESTR O YSGOLION GLYN EBWY

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
Ysgolion Cynradd				
✓*Ysgol Gatholig All Saints	Heol-yr-Ysgol, Glyn Ebwy. NP23 7QP Ffôn: 01495 303631 Ffacs: 01495 350024	134	19	136
✓ Ysgol Gynradd Beaufort Hill	Cendl, Glyn Ebwy. NP13 QG Ffôn: 01495 302624 Ffacs: 01495 302624	198	28	223

DC - Disgybl Cynhwysedd *ND* - Nifer Derbyn *RLDG* - Rhif Disgwyliedig ar Gofrestr

RHESTR O YSGOLION GLYN EBWY (parhad)

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
✓*Ysgol Gynradd Briery Hill	Cilgant Min y Coed, Glyn Ebwy. NP23 6BY Ffôn: 01495 304292 Ffacs: 01495 304292	161	23	99
✓ Ysgol Gynradd Cwm	Stryd Canning, Cwm, Glyn Ebwy NP13 6RD Ffôn: 01495 370437	240	34	184
✓ Ysgol Gynradd Garnlydan	Heol y Gymanwlad, Garnlydan Glyn Ebwy. NP23 5ER Ffôn: 01495 357737	55	7	28
✓* Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Glyncoed Glyncoed	Gelli Badminton, Glyn Ebwy. NP23 5UL Ffôn: 01495 302402 Ffacs: 01495 302402	296	42	265
✓ Ysgol Gynradd Pontygof	Pont y Gof, Glyn Ebwy. NP23 5AZ Ffôn: 01495 303210	144	20	124
✓ Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen	Heol Maes Mêl, Rasa, Glyn Ebwy NP23 5TA Ffôn: 01495 302465 Ffacs: 01495 302465	236	33	112
✓ Ysgol Gynradd Waunlwyd	Teras Ystlys y Bryn, Waunlwyd. NP23 6TY Ffôn: 01495 370235 Ffacs: 01495 370235	182	26	134
✓*Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Tre Helyg	Stryd Brynheulog, Glyn Ebwy. NP23 6NJ Ffôn: 01495 302436 Ffacs: 01495 307012	390	55	296
Ysgolion Cyfun				
* Ysgol Gyfun Glyn Ebwy (YSTOD OED 11-18 OED)	Heol Waun y Pownd, Glyn Ebwy.NP23 6LE Ffôn: 01495 303409 Ffacs: 01495 304857	978	171	583
Ysgol Gyfun Glyncoed (YSTOD OED 11-16 OED)	Gelli Badminton, Glyn Ebwy. NP23 5UW Ffôn: 01495 303216 Ffacs: 01495 307829	944	189	795
Ysgolion Arbennig				
Penycwm	Bryn Cendl, Glyn Ebwy.NP23 5QG Ffôn: 01495 304031 Ffacs: 01495 302448	80	–	–

DC - Disgybl Cynhwysedd ***ND*** - Nifer Derbyn ***RLDG*** - Rhif Disgwyliedig ar Gofrestr

RHESTR O YSGOLION Tredegar

Enw'r Ysgol	*Cyfeiriad a Rhif Ffôn*	*DC*	*ND*	*RLDG*
Ysgolion Cynradd				
✓ Ysgol Gynradd Brynbach	Heol Merthyr, Tredegar. NP22 3AY Ffôn: 01495 722569 Ffacs: 01495 722569	236	33	203
✓ Ysgol Gynradd Deighton	Ffordd Stockton, Tredegar. NP22 3EF Ffôn: 01495 722567 Ffacs: 01495 722567	352	50	227
✓ Ysgol Gynradd Georgetown	Heol Maes Derwen, Tredegar. NP22 4LJ Ffôn: 01495 717341 Ffacs: 01495 717341	393	56	324
✓ Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Glanhywi	Coed Bach, Tredegar. NP22 4RW Ffôn: 01495 722312 Ffacs: 01495 722318	448	34	209
✓ Ysgol Gatholig St Joseff	Ashvale, Dukestown, Tredegar. NP22 3QT Ffôn: 01495 722899 Ffacs: 01495 725134	96	13	72
Ysgolion Cyfun				
Ysgol Gyfun Tredegar (YSTOD OED 11-18 OED)	Lôn y Stablau, Tredegar. NP22 4BH Ffôn: 01495 723551 Ffacs: 01495 725686	1106	193	935

DC - Disgybl Cynhwysedd ***ND*** - Nifer Derbyn ***RLDG*** - Rhif Disgwyliedig ar Gofrestr

HOLIADUR

I’w gwblhau a’i ddychwelyd gan y rhieni

Mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei wasanaethau ar gyfer pobl Blaenau Gwent

Cymerwch ychydig funudau i ateb yr holiadur byr hwn a'i ddychwelyd at:

Adran Gwasanaethau Ysgolion
Gwasanaethau Canolog
Stad Ddiwydiannol Barleyfield
Brynmawr
NP23 4YF

1. Ydy'r llyfryn hwn yn hawdd i'w ddeall?

YDY ☐ NAC YDY ☐

2. Ydy'r llyfryn hwn yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addysg eich plentyn?

YDY ☐ NAC YDY ☐

3. Ydy'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am yr Awdurdod Addysg?

YDY ☐ NAC YDY ☐

4. Ydych chi'n credu bod darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yr Awdurdod yn ddigonol?

YDY ☐ NAC YDY ☐

5. A fyddech chi'n manteisio ar Addysg Cyfrwng Cymraeg pe bai gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n lleol?

BYDDEM ☐ NA FYDDEM ☐

6. Mae lle isod ar gyfer unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu awgrymiadau ar gyfer gwella (parhewch ar dudalen arall os oes angen).

_____

_____

_____

_____